CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu / Cyngor Sir
Dyddiad:	9 Chwefror / 9 Mawrth 2021
Pwnc:	Aelod Lleyg newydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 01248 752601 MarcJones@ynysmon.gov.uk
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 MarionPryor@ynysmon.gov.uk
Natur a Rheswm dros Adrodd: Yn dilyn ymddiswyddiad Mr Johnathon Mendoza, Aelod Lleyg, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a yw'n dymuno recriwtio rhywun yn ei le ar gyfer y tymor sy'n weddill, h.y. Mai 2022 neu a ddylid newid y Cyfansoddiad er mwyn lleihau nifer yr aelodau lleyg sydd eu hangen tan y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym.	

Cyflwyniad

1. Mae Mr Jonathan Mendoza, Aelod Lleyg ac Is-gadeirydd, wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac fe fynychodd ei gyfarfod olaf ar 1 Rhagfyr 2020.

2. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi bod angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod o leiaf un aelod o'i bwyllgor archwilio yn aelod lleyg.

3. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymestyn y gofyniad hwn; mae ei gyfansoddiad yn nodi y bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cynnwys dau aelod lleyg ac y gallant wasanaethu am dymor penodol i gyd-fynd â thymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, tan Mai 2022 ar hyn o bryd.

4. Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd sy'n gyfrifol am argymell penodiad yr aelodau lleyg.

5. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (a gadarnhawyd ar 20 Ionawr 2021), yn cyflwyno enw newydd, swyddogaethau a chyfridoldebau yhcwanegol ac yn diwygio aelodaeth Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu gan gynnwys angen i draean o aelodau fod yn Aelodau Lleyg. Bydd hefyd angen i'r Cadeirydd fod yn Aelod Lleyg.

6. Os yw'r Pwyllgor yn parhau ag wyth aelod etholedig, byddai felly angen am bedwar aelod lleyg.

7. Mae'r Cyngor yn dal i ddisgwyl am gadarnhad o ddyddiad dechrau'r darpariaethau hynny yn ymwneud â phwyllgorau archwilio ynghyd â natur y newidiadau hynny ac mae'n 'ddyddiad i'w bennu gan y Gweinidog'.

8. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gofyn am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ac rydym ar ddeall mai eu bwriad yw i bethau ddigwydd fel â ganlyn:

    - Ebrill 2021 – enw a swyddogaethau / cyfrifoldebau newydd

    - O fis Mai 2022 – newidiadau i aelodaeth (h.y. cadeirydd yn aelod lleyg a thraean o aelodau yn aelodau lleyg).

9. Bydd felly angen i'r Cyngor ymgymryd ag ymgyrch recriwtio yn 2022 er mwyn recriwtio aelodau lleyg fel paratoad ar gyfer y newid hwn.

Argymhelliad

10. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried a yw'n dymuno un ai:

    - Recriwtio aelod lleyg newydd ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o'r tymor, sef tan Mai 2022[1] neu

    - gofyn i'r Cyngor ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn lleihau nifer yr aelodau lleyg sydd eu hangen ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ddau aelod lleyg i un, tan y bydd gofynion y ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym.

[1] Byddai'r aelod newydd yn gymwys i ymgeisio am ail dymor o bum mlynedd ond dim ond uchafswm o ddau dymor y gellir eu cyflawni.